



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

NEWYDDION Y SECTOR DYSGU CYMRAEG

Gwanwyn
2026

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn



Croeso

Helo bawb,

Croeso cynnes i rifyn diweddaraf cylchlythyr y sector Dysgu Cymraeg.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn llawn gweithgarwch – o gynadleddau i gyfleoedd hyfforddiant, datblygu adnoddau newydd a digwyddiadau i'n dysgwyr. Wrth i ni symud at gyfnod prysur arall o'r flwyddyn, mae'n braf cael cyfle i rannu newyddion ar draws y maes.

Mae digon o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i lenwi calendrau ein dysgwyr – o sgysiau am ddramâu, i Wyl Amdani a phenwythnosau preswyl – cofiwch rannu'r cyfleoedd yma gyda'ch dysgwyr.

'Dyn ni hefyd angen eich cymorth i ledaenu'r neges am holiadur Dweud eich Dweud fydd yn cau ar 9 Mawrth. Y llynedd, cafwyd 4,803 o ymatebion – oes modd curo hynny eleni tybed?

Edrychaf ymlaen at weld nifer fawr ohonoch yng Nghynhadledd Academi fis Mai. Bydd yn gyfle gwych i ni ddod at ein gilydd i gydweithio, cynllunio a rhannu profiadau.

Gobeithio y bydd y wybodaeth isod yn ddefnyddiol, ac yn cynnig cefnogaeth wrth i chi barhau â'ch gwaith yn ystod y tymor sydd i ddod.

Dymuniadau gorau i chi gyd dros y misoedd nesaf.

Cofion,

Dona

Dona Lewis
Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg
Genedlaethol





Cynhadledd CEFR

Cyn y Nadolig, cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus am y Gymraeg (Un llwybr dysgu clir ar gyfer dod yn siaradwr Cymraeg – cefnogi dysgwyr o bob oed), wnaeth ddenu dros 200 o westeion. Cafodd y gynhadledd ei chynnal ar y cyd â Llywodraeth Cymru, ac mi wnaeth Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg agor y digwyddiad. Roedd yn braf clywed am brofiadau cydweithwyr, partneriaid a phencampwyr iaith o bob cwr o Gymru a chroesawu siaradwyr gwadd i'n plith. Clywsom gan arbenigwyr rhyngwladol o Wlad Pwyl, Norwy a Chanada, wnaeth esbonio sut maen nhw'n dathlu dwyieithrwydd, ac yn defnyddio'r CEFR – fframwaith i ddisgrifio sgiliau iaith – i lunio eu polisiau a'u dulliau dysgu iaith. Er mwyn cael blas o'r gynhadledd, gwylwch y fideos sydd ar y ddolen hon – [Sgiliau Cymraeg | Dysgu Cymraeg](#)



Arweinwyr Dysgu ac Addysgu

Roeddem yn falch iawn o fedru cynnal sesiwn gyntaf Arweinwyr Dysgu ac Addysgu cyn y Nadolig. Daeth criw brwd o diwtoriaid at ei gilydd yn Aberteifi, i drafod creu adnoddau a gweithgareddau ar gyfer y Cwrs Canolradd sy'n cael ei fireinio eleni. Mae'r criw wedi cwrdd eto ers hynny, i drafod y CEFR.



Pobl ifanc

Unwaith yn rhagor eleni, 'dyn ni'n edrych ymlaen at gynnal cyrsiau i bobl ifanc. Yn gyntaf, bydd dysgwyr ifanc yn cael eu gwahodd i fynychu penwythnos preswyl yng Nghaerfyrddin. Bydd yn gyfle gwych iddynt gyfarfod dysgwyr a thiwtoriaid eraill, cymdeithasu a mwynhau Gŵyl Canol Dre Caerfyrddin ym mis Gorffennaf. Os oes dysgwyr rhwng 21 a 25 oed yn eich dosbarth, a wnewch chi sôn wrthynt am y cyfle os gwelwch yn dda?


Yn ail, byddwn yn croesawu criw o bobl ifanc i Gaerdydd ar gwrs Tiwtoriaid Yfory ganol Gorffennaf. Byddant yn treulio pythefnos yn dysgu mwy am y sector, ac yn arsylwi rhai o ddosbarthiadau cwrs haf Dysgu Cymraeg Caerdydd. Dymuniadau gorau i bob un ohonynt gyda'r hyfforddiant.

Holiadur Dweud eich Dweud 2026

Mae holiadur Dweud eich Dweud wedi ei gyhoeddi, felly a wnewch chi dynnu sylw eich dysgwyr ato os gwelwch yn dda a'u hannog i roi eu barn? Mae'r holiadur ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'r fersiwn Gymraeg yn addas ar gyfer dysgwyr ar lefelau Canolradd, Uwch a Gloywi. Bydd y 500 dysgwr cyntaf i lenwi'r holiadur yn cael y cyfle i ennill tocyn llyfr gwerth £50, a'r dyddiad cau yw 9 Mawrth.

[Holiadur Dweud eich Dweud 2026](#)
[Adnodd | Dysgu Cymraeg](#)

[Have your Say Questionnaire 2026](#)
[Resource | Learn Welsh](#)



Gŵyl Amdani

Bydd Gŵyl Amdani yn cael ei chynnal rhwng 2 a 6 Mawrth, er mwyn dathlu cyfres lyfrau Amdani. Mae bron i 50 o deitlau yn y gyfres erbyn hyn, ac mae'r holl deitlau wedi eu rhestru yma - [Adnoddau Defnyddiol | Dysgu Cymraeg](#). Yn ystod yr wythnos, byddwn yn cyhoeddi canllaw arbennig, fydd yn cynnwys llyfrau sy'n addas i ddysgwyr ddarllen efo'u plant.

Dyma flas o ddigwyddiadau eleni:

Clwb Llyfrau – 3 Mawrth 7yh (Pob lefel)

Bydd angen i'r dysgwyr ddewis y sesiwn gywir wrth gofrestru ar y safle, a darllen eu llyfr dewisol o flaen llaw.

Noson gyda Cara – 5 Mawrth 7yh (Canolradd, Uwch a Gloywi)

Bydd golygyddion Cara, y cylchgrawn i ferched, a rhai o awduron cyfrol Man Draw yn ymuno i sgwrsio am eu teithiau.

Mae modd cofrestru i fynychu'r Clwb Llyfrau a'r noson gyda Cara isod:

[Gŵyl Ddarllen Amdani | Dysgu Cymraeg](#)

[Amdani Festival of Reading | Learn Welsh](#)

Cynnig arbennig – tanysgrifiadau Lingo Newydd a chylchgrawn Golwg

Yn rhan o ddathliadau Gŵyl Amdani, bydd cynigion arbennig yn cael eu cynnig i ddysgwyr ar gyfer Lingo Newydd a chylchgrawn Golwg. A wnewch chi rannu'r manylion, a'r dolenni canlynol gyda'ch dysgwyr os gwelwch yn dda:

Lingo Newydd

10% i ffwrdd wrth ddefnyddio'r cod: **LINGOAMDANI**

[Tanysgrifiwch i Lingo Newydd](#)

Cylchgrawn Golwg

Tri mis am bris un wrth ddefnyddio'r cod: **GOLWG3AM1**

[Tanysgrifiwch i Golwg a Golwg+](#)

Diweddariad llyfrau cwrs

Mae'r Ganolfan yn ailwampio un llyfr cwrs bob blwyddyn a thro Canolradd yw hi eleni. Felly, erbyn mis Medi bydd Cwrs Canolradd, Fersiwn 2 ar gael. Os ydych chi'n dysgu cwrs Cymraeg yn y Cartref, mae atodiad lefel Sylfaen newydd ddod o'r wasg.




Adnoddau Defnyddiol

Hoffwn dynnu eich sylw at dudalen Adnoddau Defnyddiol y Ganolfan. Yno bellach, mae modd cyrchu'r holl Adnoddau Digidol, felly ewch draw i gael golwg, a rhannwch y ddolen gyda'ch dysgwyr os gwelwch yn dda:

[Adnoddau Defnyddiol | Dysgu Cymraeg](#)

[Useful Resources | Learn Welsh](#)



Cynhadledd Academi

Mae Cynhadledd Academi wedi'i threfnu ar gyfer 22 Mai yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn maes o law.

Cryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd

Ddiwedd Mawrth, bydd y Ganolfan yn cynnal digwyddiad i ddathlu llwyddiant ei chynlluniau ar gyfer gweithleoedd. Erbyn hyn, mae dros 30,000 o weithwyr a 2,000 o gyflogwyr wedi cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Mae'r cynlluniau wedi'u hystreng yn y sectorau penodol, gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweithlu Addysg. Yn ychwanegol, mae rhaglen benodol wedi ei chreu i gefnogi'r gweithleoedd Niwrowahaniaeth a Dementia, ac mae tiwtor Dysgu Cymraeg wedi ei leoli ym mhob bwrdd iechyd. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn y Senedd ar 26 Mawrth, yng nghwmni Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, James Owen, Prif Weithredwr Medr, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Jeremy Vaughan â Phrif Weithredwr y Ganolfan, Dona Lewis.

Hyfforddiant

Dysgu Dosbarthiadau Mawr Ar-lein

Cafwyd trafodaeth banel, ac mae rhai o'r prif arferion da a rannwyd mewn dogfen ar Academi. Yn dilyn llwyddiant y panel yma, bydd Ffion Ellis yn rhannu arferion da ddydd Mercher, 11 Mawrth am 1pm.

Dysgu ac Addysgu Gwrth-hiliol

Mae tri llyfr hunan astudio i'n procio i feddwl am ein dysgu ac addysgu ar Academi. Bydd croeso i unrhyw un sy wedi gweithio trwy'r llyfrau ddod i sesiwn galw i mewn i gael sgwrs ar 24 Mawrth. Bydd dewis o dri sesiwn – 8.30yb, 12.30yp a 4.30yp.

Prawf Dynwared

Mae Dr Hui Sun a Dr Jon Morris wedi creu Prawf Dynwared i fesur lefel dysgwyr. Byddan nhw'n cyflwyno eu canfyddiadau i diwtoriaid yn y Gogledd ar 8 Mai – ym Mangor yn y bore ac yn Wrecsam yn y prynhawn. Mae'r manylion llawn ar Academi. Bydd sesiwn ym Mhrifysgol Caerdydd am 2pm ar 15 Mai. Mae'r manylion llawn ar Academi.

Uned DPP newydd

Mae Uned DPP ar 'Dysgu ar Gyrsiau Bloc' wedi'i hychwanegu at Academi.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

